# Gramadeg Graenus

# Treiglo

Treiglad trwynol ar ôl fy

Pa lythrennau sy'n treiglo?

c ll p n l rh s b t m u g c d r y

Treiglad trwynol ar ôl fy

Sut mae'r llythrennau hyn yn treiglo?


| | | | |
|---|---|---|---|
| c | ngh | g | ng |
| t | nh | d | n |
| p | mh | b | m |

**Treiglad trwynol ar ôl fy**

Cofiwch, nid yw'r llythrennau hyn yn treiglo'n drwynol:

**m** **ll** **rh**

Labelwch rhannau'r corff gan gofio treiglo'n drwynol ar ôl fy:



# Ymarfer
# Pa eiriau sy'n treiglo ar ôl 'fy'?

1. Fy cadair
2. Fy llyfr
3. Fy gwers
4. Fy beic
5. Fy chwaer
6. Fy dosbarth
7. Fy tad
8. Fy pensil
9. Fy llaw
10. Fy gardd

# Yr Atebion

1. Fy nghadair
2. Fy llyfr
3. Fy ngwers
4. Fy meic
5. Fy chwaer
6. Fy nosbarth
7. Fy nhad
8. Fy mhensil
9. Fy llaw
10. Fy ngardd

**Beth oedd eich sgôr?**

# Berfau

# Roedd

Roeddwn i
Roeddet ti
Roedd e
Roedd hi
Roedd Sam

Roedden ni
Roeddech chi
Roedden nhw

# Cyfatebwch y ferf gyda'r person cywir e.e roeddwn i

chi

ti

roeddwn

roedden

nhw

e

roedd

roeddech

roedden

i

roedd

hi

ni

roeddet

# <u>Ymarfer</u>

**Ysgrifennwch ffurf y ferf yn gywir:**

1. ____________ ti wedi gwisgo esgidiau glaw i'r parc.
2. ____________ hi'n heulog yn y bore.
3. ____________ i'n naw mlwydd oed ddoe.
4. ____________ Dafydd wedi gorffen ei waith cartref.
5. ____________ y plant yn swnllyd iawn.
6. ____________ nhw'n hwyr i'r wers eto!
7. ____________ i'n hapus iawn yn y parti.

# Atalnodi

# Beth yw'r symbolau ar gyfer:

atalnod llawn

dyfynodau

atalnod

gofynnod

# Pryd ydyn ni'n defnyddio'r geiriau hyn?

ebychiad

dyfynodau

cromfachau

atalnod

Trafodwch â phartner.

# Pa symbolau atalnodi sydd ar goll?

Thyd ★
Roedd hi'n ddau o'r gloch y bore ac roedd
Deryth yn gorwedd yn hollol lonydd yn ei
gwely ★ Roedd hi yn y tŷ ar ei phen ei hun★
Oedd cath wedi dod i mewn drwy'r ffenest
agored★ Oedd ysbryd yno★
Erbyn hyn roedd hi'n crynu fel deilen★
Gwich★ gwich. Roedd rhywun yno ★

# Oeddech chi'n llwyddiannus?

Thyd!
Roedd hi'n ddau o'r gloch y bore ac roedd Deryth yn gorwedd yn hollol lonydd yn ei gwely .   Roedd hi yn y tŷ ar ei phen ei hun .
Oedd cath wedi dod i mewn drwy'r ffenest agored?  Oedd ysbryd yno?  Erbyn hyn roedd hi'n crynu fel deilen .
Gwich … gwich.  Roedd rhywun yno.

**Beth oedd eich sgôr?**

# Cystrawennau Cywir

# i gyd

Y plant **i gyd**
Y llyfrau **i gyd**
Y merched **i gyd**

**Mae i gyd yn dilyn popeth yn Gymraeg.**

**Peidiwch byth â dechrau brawddeg gyda i gyd**

**Roedd yr atebion i gyd yn gywir.**

# i gyd

Ysgrifennwch 3 brawddeg sy'n cynnwys

i gyd

1.
2.
3.

# Adolygu Adref













Quizlet


# Gramadeg Graenus

# Pos yr wythnos

Mae'r ysgol leol yn adeiladu cwrt pêl-rwyd newydd.
Dyma'r mesuriadau:

Beth yw arwynebedd y cwrt newydd?

541 troedfedd



76 troedfedd

